Polisi Diogelu Grŵp CAVC - Dysgwyr ac Ymwelwyr

Ymrwymiad

O fewn y polisi hwn mae'r term "Grŵp" yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n cael gwared ar anfantais neu'n ei lleihau, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles pob dysgwr. Cydnabyddwn fod diogelu a hyrwyddo lles ein dysgwyr yn gyfrifoldeb i bawb ac rydym bob amser yn ymrwymedig i weithredu er lles dysgwyr.

Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod y trefniadau diogelu effeithiol yn eu lle ar draws Grŵp CAVC.

Mae gan y Grŵp ddyletswydd foesol a statudol i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sydd mewn risg a'u diogelu rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae gan y Grŵp agwedd dim goddefgarwch tuag at gamdriniaeth ac unrhyw ymddygiad niweidiol arall.

Mae'r polisi hwn, a'r holl weithdrefnau Diogelu cysylltiedig ar draws y Grŵp yn berthnasol i'r holl staff a dysgwyr. Tra bod gan staff lefelau cyswllt amrywiol gyda dysgwyr, rhaid i bawb fod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl esgeulustod a chamdriniaeth a gwybod yn union beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.

Mae'r polisi hwn yn amlygu'r disgwyliad y bydd gan yr holl ddarparwyr yn y grŵp eu gweithdrefnau diogelu eu hunain sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol ac yn gadarn i sicrhau diogelwch a lles dysgwyr.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2022

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr y Grŵp.

Datganiadau'r Polisi

Mae'r prif bolisi diogelu hwn yn amlinellu dull gweithredu cyffredin y Grŵp mewn perthynas â Diogelu. Nid yw'r polisi hwn yn amlinellu'r prosesau a gweithdrefnau unigol ar gyfer pob sefydliad, mae wedi'i ddylunio i gyd-fynd â gweithdrefnau diogelu cyfredol sydd wedi'u sefydlu ar draws y grŵp a bod yn sail iddynt.

Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod arferion ar draws y grŵp yn gyson, yn unol â'u gwerthoedd cyfrannol, yn hyrwyddo arferion da ac yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ddiogel.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a phob math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu wneud iawn megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu'r Swyddfa Dyfarnwyr AU Annibynnol (nid rhestr gynhwysfawr mo hon).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Yr Uwch Dimau Rheoli:

- Sydd â'r cyfrifoldeb cyffredin am sicrhau bod trefniadau diogelu yn effeithiol ar draws y grŵp. Maent yn gyfrifol am ddatblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisïau perthnasol wedi'u sefydlu ar draws y grŵp.

Bydd y Prif Swyddogion Diogelu Dynodedig yn:

- Sicrhau bod gan bob sefydliad weithdrefnau diogelu wedi'u sefydlu sy'n cefnogi'n effeithiol y gwaith o reoli diogelu ar draws y grŵp.
- Sicrhau bod y polisi hwn a gweithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y Grŵp.
- Sicrhau bod systemau yn eu lle i gadw cofnodion manwl, cywir a diogel o bryderon ac atgyfeiriadau gan ddefnyddio mecanweithiau cofnodi achosion. (MyConcern)
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol a sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant priodol.
- Cefnogi'r Grŵp i ddeall gofynion y ddyletswydd Atal a darparu cyngor a chefnogaeth ynglŷn â diogelu'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.
- Cefnogi'r Grŵp i ddeall gofynion dyletswydd y ddeddfwriaeth diogelu a darparu cyngor a chefnogaeth ynglŷn â diogelu'r rheiny sydd mewn perygl o niwed

- Sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei adolygu bob blwyddyn.
- Gweithio mewn modd cydweithredol i sicrhau bod diogelu ar draws y grŵp yn gyson a chadarn.

Bydd yr holl staff yn:

- Darllen a deall y polisi diogelu a deall y gweithdrefnau adrodd ar gyfer eu sefydliad priodol o fewn y Grŵp.
- Ymwybodol o arwyddion a symptomau posibl sydd ynghlwm â chamdriniaeth.
- Ymwybodol o sut i godi pryder os yw hynny'n angenrheidiol.
- Deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Bydd yr holl staff yn:

- Darllen a deall y polisi diogelu.
- Ymwybodol o arwyddion a symptomau posibl sydd ynghlwm â chamdriniaeth.
- Ymwybodol o sut i godi pryder os yw hynny'n angenrheidiol.
- Deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Bydd yr holl ddysgwr yn:

- Mynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys codi unrhyw bryderon amdanyn nhw eu hunain, dysgwyr eraill neu sefyllfaoedd gyda staff.
- Cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Rhaid i weithdrefnau diogelu ar draws y grŵp gymryd y deddfwriaethau canlynol i ystyriaeth, a bod yn eglur drwyddynt draw:

- Deddf Gwrth-Derfysgaeth 2015
- Deddfau Diogelu Rhyddid (2012)
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Deddf Plant (2004)
- Y Strategaeth Atal (2011)
- Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Diogelu Oedolion ar waith yng Nghymru
- Canllawiau'r Ddyletswydd Atal i Addysg Bellach (2015)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2015) Rhif Cylchol: 158/2015
- Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant Rhif Cylchol:12/2007
- Gweithdrefnau Cwynion ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru 2012
- Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006
- Parchu eraill: cyfarwyddyd gwrth-fwlio 2003

- Diogelu Plant mewn Addysg: Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill Rhif Cylchol:009/2014
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Rhan 7 o'r Ddeddf yn cyfeirio at ddiogelu)

Nid rhestr gynhwysfawr mo hon a gellir ychwanegu ati drwy gymeradwyo deddfwriaeth yn y dyfodol naill ai gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhannu gwybodaeth ar draws y grŵp:

Pan mae angen i un aelod o'r grŵp rannu data ynglŷn ag anghenion dysgwyr gydag aelod arall (er enghraifft, fel rhan o'r broses bontio), caiff hynny ei wneud yn gwbl gyfrinachol ac ar sail angen gwybod. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y Swyddogion Diogelu Dynodedig ym mhob sefyllfa. Bydd y Polisi Diogelu yn ei gwneud yn glir y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu ar sail gyfyngedig iawn o fewn y grŵp a dim ond pan mae gwneud hynny yn hanfodol er lles a diogelwch y dysgwr

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.
Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Cyfeiriadau

Gweithdrefnau Diogelu Coleg Caerdydd a'r Fro
Gweithdrefnau Diogelu ACT
Gweithdrefnau Diogelu ALS

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.
Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu a'i storio gan bob sefydliad drwy eu sianelau cyfathrebu mewnol a rheoli polisïau.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo:	**7 Gorffennaf 2020**	**Rheolwr Atebol:**	**Deon Taith y Dysgwr**
Cymeradwywyd Gan:	**Y Prif Fwrdd**	**Arweinydd Gweithredol:**	**Dirprwy Bennaeth**
Dyddiad Adolygu Nesaf:	**Gorffennaf 2022**	**Hygyrch i Fyfyrwyr:**	**Ydy**